Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Dyddiad: Tachwedd 2016

At Rieni/Ofalwyr holl
ddisgyblion Castell-nedd Port Talbot

Annwyl Riant/Ofalwr,

Presenoldeb Disgyblion yn yr Ysgol

Fel y gwyddoch, mae'n rhaid i ddisgyblion oedran ysgol, yn unol â'r ddeddf, fod yn bresennol yn yr ysgol. Mae Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot yn ystyried bod presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn flaenoriaeth bwysig er mwyn i'r holl blant a phobl ifanc fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Mae'n anghyfreithlon i chi gadw'ch plentyn o'r ysgol heb reswm da dros wneud hynny.

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod adegau pan fo plentyn yn methu bod yn bresennol yn yr ysgol e.e. cyfnodau o salwch. Fodd bynnag, gofynnwn i rieni geisio cadw absenoldebau'n isel a bod eich plentyn yn dychwelyd cyn gynted ag y mae'n ddigon iach i wneud hynny. Gan siarad yn gyffredinol, os yw'ch plentyn yn ddigon iach i fynd allan e.e. gyda ffrindiau neu i siopa, mae e'n ddigon iach i fod yn yr ysgol, oni bai fod y meddyg wedi cynghori i'r gwrthwyneb.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn disgwyl lefelau uchel o bresenoldeb mewn ysgolion ar draws yr awdurdod. Mae'n anodd cyflawni hynny pan fo gwyliau yn ystod y tymor yn gallu cyfrif am fwy na 5% o ffigur absenoldebau blynyddol yr ysgol. Mae gwyliau yn ystod y tymor bob blwyddyn gyfwerth â cholli dau dymor yn ystod amser y plentyn yn yr ysgol. O ystyried cyfnodau o salwch hefyd, gallai eich plentyn golli mwy na blwyddyn gyfan o ysgol. Mae hwn yn amser dysgu ac addysgu pwysig na ellir ei ennill yn ôl.

Gall absenoldeb o'r ysgol oherwydd gwyliau amharu'n ddifrifol ar ddysgu disgybl ac ar gynnydd addysgol yn yr ysgol.

Mae'r awdurdod yn deall bod amgylchiadau rhieni (ymrwymiadau ariannol a gwaith) yn amrywio, ond serch hynny, mae gan rieni gyfrifoldeb dros sicrhau nad yw eu plant yn absennol o'r ysgol oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol. Pan fydd presenoldeb yn bryder, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried rhoi Hysbysiad o Gosb Benodol i'r rhieni neu ddechrau erlyniad drwy'r llys.

Mae addysg yn bwysig i gyfleoedd bywyd eich plentyn, gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn gwneud defnydd llawn o'i gyfleoedd dysgu yn yr ysgol. Maent yn colli cyfleoedd pan nad ydynt yn yr ysgol.

Yn gywir,

Aled Evans
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Director of Education, Leisure & long Learning
Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ

Education, Leisure & Lifelong Learning
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

www.npt.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
Croesewir gohebiaeth yn Saesneg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Date: November, 2016

To Parents/Carers of all
Neath Port Talbot Pupils

Dear Parent/Carer,

Pupil Attendance at School

As you are aware pupils of school age must, by law, attend school. Neath Port Talbot Local Authority views regular attendance at school as the highest priority in order that all children and young people can maximise the learning opportunities made available to them. It is illegal to keep your child from attending school without a good reason for doing so.

The authority recognises that there are occasions when a child is unable to attend school e.g. periods of illness. However, parents are asked to keep all absences to a minimum and that your child returns to school as soon as they are fit to do so. Generally speaking, if your child is well enough to go out with friends or shopping for example, they are well enough to be in school, unless there is medical advice to the contrary.

Neath Port Talbot expects high levels of attendance at schools across the authority. This is difficult to achieve when holidays taken in term time can account for over 5% of the annual absence figure of a school. A term-time holiday each year can equate to two school terms being lost during a child's time at school. Taking sickness into account, your child may well miss more than a whole year of schooling. This is important teaching and learning time that cannot be replaced.

Absence from school as a result of a holiday can seriously interrupt a pupil's learning and disrupt educational progress at school.

The authority understands that parents' circumstances (financial and work commitments) vary, but nonetheless parents have the responsibility to ensure that their child(ren) only miss school if absolutely necessary. Where attendance becomes a concern the Local Authority will consider issuing parents a fixed penalty notice or commence prosecution via Court.

Education is important to your child's life chances, please ensure that your child takes full advantage of his or her learning opportunities at school. They lose out when they are not there.

Yours sincerely

Aled Evans

Aled Evans
Director of Education, Leisure & Lifelong Learning

Education, Leisure & Lifelong Learning
Aled Evans, Director of Education, Leisure & long Learning
Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

www.npt.gov.uk

We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.